cbac wjec **TGAU**

**3010NA0-1**

**DYDD GWENER, 13 IONAWR 2023 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: Barddoniaeth

## HAEN UWCH

**1 awr 15 munud a'ch amser estynedig**

© WJEC CBAC Cyf.

CJ*(W23-3010NA0-1-MLP-A3-36)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

**Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.**

**UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.**

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.**

**Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.**

**(Trowch y dudalen)**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.**

**Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.**

(Trowch y dudalen)

## UNED 1: BARDDONIAETH

## HAEN UWCH

1. **Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.**

   **Yn y cerddi mae'r ddau fardd yn ymateb i ryfeloedd y gorffennol.**

   **CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG a/neu'n WAHANOL. Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:**

- **cynnwys a neges/themâu y cerddi**
- **sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)**
- **eich ymateb personol i'r cerddi**

(Trowch y dudalen)

**Wrth ateb, cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau. [40 marc]**

(Trowch y dudalen)

## Y COED

Chwe miliwn o goed yng Nghaersalem, fe'u plannwyd hwy
Yn goeden am bob corff a losgwyd yn y ffyrnau nwy.

Coed sydd yn estyn eu gwreiddiau i ganol lludw pob ffwrn,
Y lludw sydd wedi mynd ar goll, heb fynwent na bedd nac wrn.

Chwithig oedd gweled y cangau fel cofgolofnau byw,
Ac nid marmor na gwenithfaen, na hyd yn oed yr angladdol yw.

Ni chlywem ni na chlychau'r eglwys na mŵesin y mosg,
Ond clywed rhwng eu cangau hwy y marwnadau llosg.

Nid yw'r dwylo a'u plannodd yn ddieuog, na'u cydwybod yn lân,
Canys diddymodd yr Israeliaid bentrefi'r Arabiaid â'u tân.

(Trowch y dudalen)

Pam na ddylai’r Arabiaid, hwythau, godi yn Cairo ac Amân
Fforestydd o goed i gofio?

Ond ni allwn ni gondemnio’r Natsïaid na’r Iddewon ychwaith
Canys fe droesom o’r awyr Dresden yn un uffern faith;

A gollwng y ddau fom niwclear ar y ddwy dre yn Japan.

O’r holl ganrifoedd a gerddodd ar y ddaear er cychwyn y byd,
Yr ugeinfed yw’r fwyaf barbaraidd ohonynt hwy i gyd.

A bydd y nesaf yn waeth am fod y bomiau a’r rhocedi yn fwy,
A dyfeisir mewn labordai dirgel sawl math o nwy.

A phan ddaw’r trydydd Rhyfel i gadw ei ddychrynllyd oed,
Ni ellir rhifo’r lladdedigion llosg, na rhifo ychwaith y coed.

(Trowch y dudalen)

Chwe miliwn o goed yng Nghaersalem,
chwe miliwn, a thair croes,
Ac ar y ganol Yr Unig Un a fu'n byw'r
Efengyl yn ei oes.

Daw'r tymhorau i newid eu lliwiau, gwyrdd,
melyn a gwyn.
Ond coedwig y marwolaethau'n aros a
fyddant hwy, er hyn.

Pan fyddant ymhen blynyddoedd wedi tyfu
i'w llawn maint,
Fe wêl y genhedlaeth honno nad oeddem
ni yn llawer o saint.

Gwenallt

(Trowch y dudalen)

# NIWL

Yr ardal honno,
Gogledd-ddwyrain Ffrainc,
Y ddau dro,
Y ddau dro y bum i drwyddi
DANGER oedd hi
*BROUILLARD:
Niwl.

Troes tegwch y bore
Y ddau dro,
Troes tywyniadau melyn yr haul
Y ddau dro
Yn niwl y prynhawn.

Niwl llwyd,
Niwl oedd yn mygu golau melyn y car
Fel yr oedd o'n mygu'r heulwen:
Lampau'n diffodd.

(Trowch y dudalen)

**Ac o’r niwl hwnnw deuai weithiau
Enwau ac arnynt *archollion
Hen ryfel:
*Compiègne, Sommes,
Mons, Arras, Amiens.
A deuai atom hen farwolaethau
O arwyddion ochrau ffyrdd:
‘Yma y mae beddau…’
A nodid rhifau ac enwau *catrodau.
Beddau yn y niwl.**

**Niwl hen y daith,
Niwl hen,
Hen, hen niwl y ddynoliaeth.**

**Gwyn Thomas**

**(Trowch y dudalen)**

## GEIRFA

**BROUILLARD – y gair Ffrangeg am niwl**
**archollion – briwiau / anafiadau**
**Compiègne, Sommes, Mons, Arras, Amiens – brwydrau'r Rhyfel Byd Cyntaf**
**catrodau – unedau o filwyr yn y rhyfel**

## DIWEDD Y PAPUR